# Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

# Llawlyfr y Cynllun

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Pencadlys yr Heddlu
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Rhif Ffôn: 01267 226 440
Rhif Ffacs: 01267 226 448
E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk
Gwefan: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk

Cynnwys

1. Polisi Gwirfoddoli ........................................................................ 2
2. Llawlyfr y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ........................ 2

3. Cyflwyniad i’r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa .................. 2
4. Rheoli'r Cynllun .......................................................... 2
5. Cymhwysedd .............................................................. 2
6. Recriwtio a Hyfforddi ..................................................... 3
9. Terfynu'r penodiad ........................................................ 4
10. Datrys Anghydfod ......................................................... 4
11. Trefniadau Ymweld ........................................................ 5
12. Paneli Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Chadeirydd y Panel ......... 6
13. Gweithdrefnau Ymweld â’r Ddalfa ........................................ 7
14. Didueddrwydd a Chyfrinachedd ......................................... 15
15. Ffurflenni Adrodd Ymwelwyr a Gweithredu Dilynol ...................... 16
16. Monitro’r cynllun ........................................................ 17
17. Y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa .......................... 17
Atodiad A ..................................................................... 19
Atodiad B ..................................................................... 20
Atodiad C ..................................................................... 21
Atodiad Ch .................................................................... 22
Atodiad D ..................................................................... 25

## 1. Polisi Gwirfoddoli

Mae'r Polisi Gwirfoddoli'n bolisi cynhwysfawr sy'n gosod egwyddorion cyffredinol gwaith gwirfoddol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Darperir copi o'r Polisi i bob gwirfoddolwr. Mae ar gael ar wefan y Comisiynydd hefyd, neu trwy wneud cais i Swyddfa'r Comisiynydd.

Mae'r Polisi'n cynnwys rhagor o wybodaeth am yr agweddau canlynol ar wirfoddoli:

1) Rheoli'r cynlluniau gwirfoddoli;
2) Meini prawf i fod yn gymwys;
3) Recriwtio, ymgeisio, a gwirio;
4) Hyfforddiant;
5) Cyfnod prawf a hyd y penodiad;
6) Swyddogaethau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr;
7) Treuliau ac yswiriant;
8) Terfynu'r penodiad; cyfrinachedd a chael gwared â dogfennau;
9) Canllawiau cyhoeddusrwydd; a
10) Datrys anghydfod a chwynion yn erbyn yr Heddlu.

## 2. Llawlyfr y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae'r Llawlyfr hwn yn rhoi cyfarwyddyd manwl am y trefniadau ymweld â'r ddalfa yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

## 3. Cyflwyniad i'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Roedd adroddiad yr Arglwydd Scarman am derfysgoedd Brixton ym 1981 wedi argymell sefydlu system o archwiliadau annibynnol a dirybudd gan aelodau o'r gymuned leol o ddalfeydd yr heddlu a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Y prif resymau dros hynny oedd mynd i'r afael â'r diffyg cynyddol o ffydd yn yr heddlu, ac i sicrhau bod yr heddlu'n fwy atebol i'r cyhoedd.

Mae Adran 51 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n gwneud trefniadau i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld â charcharorion. Atgyfnerthir y Ddeddf gan Godau Ymarfer a Safonau Cenedlaethol a ddatblygwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Nod y trefniadau ymweld hyn yw galluogi unigolion o'r gymuned leol i arsylwi ar, gwneud sylwadau am, ac adrodd am yr amodau ar gyfer pobl a ddelir mewn gorsafoedd heddlu. Mae'r trefniadau hyn yn wiriad annibynnol o sut mae staff y ddalfa'n cyflawni eu dyletswyddau o ran y bobl a ddelir hefyd, gyda'r bwriad o gynyddu ffydd y cyhoedd.

## 4. Rheoli'r Cynllun

Cydlynir y Cynllun gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sydd â phwynt cyswllt sengl ar gyfer gwirfoddolwyr. Hysbysir gwirfoddolwyr am fanylion y pwynt cyswllt wrth ymuno â'r cynllun, ac am unrhyw newid.

## 5. Cymhwysedd

Amlygir y meini prawf ar gyfer bod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn y swydd ddisgrifiad yn Atodiad A. Ystyrir pob cais yn unol â'i haeddiant, ond y

ffactorau pennaf fydd osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl ar gyfer unigolion, a chynnal annibyniaeth a chywirdeb y cynllun yn ei grynswth.

## 6. Recriwtio a Hyfforddi

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn recriwtio Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa trwy wahodd ceisiadau gan y cyhoedd. Bydd y Comisiynydd yn ymdrechu i recriwtio Ymwelwyr o bob rhan o'r gymuned mewn ymgais i adlewyrchu amrywiaeth y gymuned honno o ran rhyw, oedran, ethnigrwydd a chefndir.

Gwahoddir pob Ymwelydd i gwrs sefydlu undydd cychwynnol a drefnir gan Swyddfa'r Comisiynydd. Cyflwynir yr hyfforddiant gan Swyddfa'r Comisiynydd, y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a staff dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod gan Ymwelwyr newydd yr wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol i wneud ymweliadau. Ni fydd disgwyl i Ymwelydd gychwyn ar y gwaith heb fynychu diwrnod hyfforddi.

Hefyd, disgwylir i Ymwelwyr fynd ar ymweliad hyfforddi â dalfa cyn cychwyn ar eu gwaith, yn ogystal â gwneud dau ymweliad ar y cyd ag Ymwelydd profiadol.

I gefnogi'r hyfforddiant cychwynnol ac i sicrhau adnewyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn rheolaidd, gofynnir i Ymwelwyr fynychu diwrnod hyfforddi bob blwyddyn yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Cynhelir y sesiynau hyfforddi blynyddol ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin.

Cynigir cyfleoedd hyfforddiant allanol hefyd, er nad yw mynd i'r fath ddigwyddiadau'n orfodol.

## 7. Penodi

Ar ôl cael ei benodi, bydd pob Ymwelydd yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (Atodiad Ch); mae hwn yn amlygu'r Cod Ymddygiad y disgwylir iddo lynu wrtho yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Rhoddir cerdyn adnabod, sy'n cynnwys llun o'r Ymwelydd, i bob Ymwelydd. Mae'r cerdyn hwn yn awdurdodi'r Ymwelydd i ymweld â dalfeydd yn ardal ei banel.

Ni fydd Ymwelydd yn ymweld â dalfa y tu allan i ardal ei banel heb i'r Comisiynydd gymeradwyo hynny ymlaen llaw. Ni ddylid defnyddio'r cerdyn adnabod ond at ddibenion ymweld â dalfeydd. Os daw'n hysbys bod Ymwelydd wedi defnyddio'r cerdyn at unrhyw ddiben arall, tynnir y cerdyn yn ôl a chaiff penodiad yr Ymwelydd perthnasol ei derfynu.

Disgwylir i Ymwelydd newydd gwblhau cyfnod prawf chwe mis o hyd yn foddhaol. Ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn foddhaol, cadarnheir penodiad yr Ymwelydd am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd. Adolygir y penodiad bob 3 blynedd yn unol â'r Polisi Gwirfoddoli.

Gofynnwn yn garedig i bob ymwelydd annibynnol â'r ddalfa geisio ymrwymo i'r cynllun am flwyddyn o leiaf gan fod angen cliriad fetio a hyfforddiant ar bob ymwelydd annibynnol â'r ddalfa.

## 8. Treuliau

Mae'r gwaith yn hollol wirfoddol, ond telir costau teithio i Ymwelwyr os bydd y costau'n ganlyniad uniongyrchol o gymryd rhan yn y cynllun. Am ragor o wybodaeth am dreuliau, gweler y Polisi Gwirfoddoli.

## 9. Terfynu'r penodiad

Dylai Ymwelydd sy'n dymuno terfynu ei benodiad ysgrifennu at Weinyddwr y Cynllun, gan roi digon o rybudd i newid y rota er mwyn sicrhau na chollir ymweliadau. Lle bo modd, dylai Ymwelydd gwblhau unrhyw ymweliadau a gynlluniwyd o dan y rota cyfredol.

Er bod y swydd yn hollol wirfoddol, mae gan y Comisiynydd hawl i derfynu'r penodiad yn achos Ymwelydd nad yw ei ymddygiad yn cyrraedd y safon a ddisgwylir. Bydd pob Ymwelydd yn llofnodi'r Cod Ymddygiad wrth gael ei benodi, a disgwylir iddo lynu wrth y safonau a amlygir yn y ddogfen honno. Os bydd ymddygiad Ymwelydd yn methu cyrraedd y safon honno, bydd y Comisiynydd yn ystyried a ddylai'r unigolyn barhau yn y swydd. Mae gan Ymwelydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd fel yr amlygir yn y Polisi Gwirfoddoli.

Er bod y rôl yn gwbl wirfoddol, mae gan y Comisiynydd yr hawl i derfynu penodiad unrhyw ymwelydd annibynnol â'r ddalfa os na ystyrir fod ei ymddygiad o'r safon ddisgwyliedig. Bydd pob ymwelydd annibynnol â'r ddalfa'n arwyddo Cod Ymddygiad (Atodiad Ch) wrth ymuno â'r cynllun, a disgwylir iddo lynu wrth y safonau a nodir yn y ddogfen honno. Os yw ei ymddygiad yn syrthio'n is na'r safon hwnnw, bydd y Comisiynydd yn ystyried pa un ai a ddylai'r unigolyn hwnnw barhau yn y swydd.

Rhaid i Ymwelydd hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd os caiff ei arestio a'i gyhuddo o drosedd, neu os bydd yn destun ymchwiliad. Wedyn, caiff ei ddiarddel o'i ddyletswyddau'n aros canlyniad y fath drafodion.

## 10. Datrys Anghydfod

Gweler y Polisi Gwirfoddoli am gyfarwyddyd ar ein gweithdrefnau achwyn a beth y dylech ei wneud yn achos cwyn yn erbyn Heddwas neu Weinyddwr y Cynllun.

Caiff unrhyw gŵyn yn erbyn Ymwelydd gan garcharor, heddwas neu unigolyn arall ei thrin yn unol â gweithdrefnau achwyn y Comisiynydd.

Lle mae gan ymwelydd annibynnol â'r ddalfa bryder ynghylch ymddygiad cyd ymwelydd annibynnol â'r ddalfa sydd ddim yn medru cael ei ddatrys yn lleol, dylid hysbysu'r Gweinyddydd Cynllun yn ysgrifenedig, fel y nodir yn Atodiad Ch.

Mae Atodiad Ch yn nodi manylion Cod Ymddygiad Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, sy'n cynrychioli'r safon a ddisgwylir gan bob ymwelydd annibynnol â'r ddalfa. Hon yw'r sail ar gyfer eu haelodaeth barhaus o'r Cynllun. Gall

penodiad ymwelydd annibynnol â'r ddalfa sy'n cael ei ddal yn torri'r Cod gael ei derfynu, ei atal neu ei gwtogi.

Yn achos cwyn neu honiad bod ymwelydd annibynnol â'r ddalfa wedi torri unrhyw ran o'r Cod Ymddygiad hwn, cymerir y camau gweithredu canlynol.

Bydd SCHTh yn gofyn am i'r gŵyn/honiad gael ei (g)wneud yn ysgrifenedig, os nad yw hyn wedi'i wneud yn barod. Ni chymerir camau gweithredu pellach oni bai y cyflwynir y gŵyn neu'r honiad yn ysgrifenedig.

Ar ôl derbyn y gŵyn neu'r honiad yn ysgrifenedig, bydd SCHTh yn rhoi gwybod i'r ymwelydd annibynnol â'r ddalfa am hyn ac am y cynnwys. Cynhelir trafodaeth rhwng yr ymwelydd annibynnol â'r ddalfa ac aelod priodol o SCHTh i drafod natur y gŵyn.

Gan ddibynnu ar natur y gŵyn, rhoddir cyfle i'r ymwelydd annibynnol â'r ddalfa ymateb i'r gŵyn/honiad yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Bydd SCHTh yn cynnal yr ymholiadau perthnasol gofynnol er mwyn pennu sylwedd y gŵyn neu'r honiad. Wrth wneud hynny, a gan ddibynnu ar natur y gŵyn, bydd SCHTh yn cysylltu ag unrhyw un o'r partïon canlynol, neu bob un ohonynt:

- Yr achwynydd
- Cyd ymwelydd/ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa
- Swyddog(ion) Heddlu
- Unrhyw un arall sy'n medru darparu gwybodaeth berthnasol

Ar ôl cynnal yr ymholiadau gofynnol, bydd SCHTh yn paratoi adroddiad, gydag argymhellion, a fydd yn cael eu hystyried/cadarnhau gan Bennaeth Staff SCHTh a'r Cadeirydd Panel priodol. Bydd yr ymwelydd annibynnol â'r ddalfa'n derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad.

## 11. Trefniadau Ymweld

### 11.1 Nifer yr Ymwelwyr

Penodir digon o Ymwelwyr i sicrhau bod modd gwneud y nifer priodol o ymweliadau dirybudd â phob dalfa.

### 11.2 Ymweld mewn parau

Rhaid i Ymwelwyr ymweld mewn parau. Ni chaniateir mynediad i unrhyw orsaf heddlu os bydd Ymwelydd ar ei ben ei hun. Trefnir y parau fel bod, cyn belled ag y bo modd, pob Ymwelydd yn cael ei baru ag Ymwelwyr gwahanol yn ystod cyfnod pob rota. Ni ddylai mwy na dau Ymwelydd fynd ar bob ymweliad, ac ni ddylid cynnwys unrhyw berson heb yr awdurdod priodol mewn ymweliad, dim ond Ymwelwyr achrededig eraill.

### 11.3 Amlder ac Amseru Ymweliadau - Rotâu

Disgwylir i Ymwelwyr wneud o leiaf dau ymweliad bob mis. Bydd hyn yn amrywio, gan ddibynnu ar eu hardal, gan nad oes angen ymweld â phob dalfa bob wythnos, er bod angen hynny yn achos dalfeydd mwy o faint a mwy prysur.

Bydd y Comisiynydd yn pennu amlder yr ymweliadau, ond ystyrir barn yr Ymwelwyr a Heddlu Dyfed-Powys. Bydd angen gofalu bod yr ymweliadau'n ddigon aml i fodloni amcanion y cynllun ond heb fod mor aml eu bod yn amharu ar effeithlonrwydd gweinyddu'r ddalfa dan sylw nac ar waith yr heddweision.

Penderfyniad yr Ymwelwyr yw amseru'r ymweliadau. Fodd bynnag, dylai Ymwelwyr ystyried yr angen i ymweld ar ddiwrnodau gwahanol ac amserau gwahanol. Ni ddylai fod modd i staff y ddalfa ragweld pryd y daw'r Ymwelwyr.

Neilltuir cyfnod o wythnos neu bythefnos i Ymwelwyr wneud eu hymweliadau. Bydd 'Ymwelydd 1' yn cysylltu ag 'Ymwelydd 2' i drefnu amser a dyddiad yr ymweliad. Darperir cyngor pellach i Ymwelwyr am eu rotâu.

Dylai Ymwelwyr gofio bod eu hymweliadau'n gosod cyfrifoldeb annisgwyl ar heddweision y ddalfa, a dylent hefyd fod yn ymwybodol o oedi posibl adeg newid sifft.

## 12. Paneli Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Chadeirydd y Panel

Mae pedwar panel o fewn y cynllun, un ar gyfer bob sir yn Nyfed-Powys, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Penodir Ymwelwyr i'r Panel ar gyfer yr ardal lle maent yn gwneud eu hymweliadau.

Disgwylir i Ymwelwyr ymbresenoli mewn dau gyfarfod Panel yn eu hardal bob blwyddyn. Bydd cynrychiolwyr dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys yn bresennol hefyd i drafod unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau o ran dalfeydd ac i roi diweddariad ac adborth ar faterion a godwyd gan Ymwelwyr yn ystod y cyfnod dan sylw.

Cadeirir bob Panel gan Ymwelydd sydd wedi mynegi diddordeb yn y rôl, ac sydd wedi'i enwebu gan ei Gyd-ymwelwyr. Bydd pob panel yn ethol Cadeirydd bob tair blynedd. Er y caiff y Cadeirydd ei ethol am dair blynedd ar y tro, caiff aelodau'r Panel alw am etholiad newydd ar unrhyw adeg, ac os bydd traean o aelodau'r Panel yn gwneud y fath gais mewn ysgrifen i gydlynydd y cynllun cynhelir etholiad newydd.

Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyfarfodydd yn cadw at yr amserlen, eu bod yn trafod pob eitem ar yr agenda, a bod pwyntiau gweithredu'n cael eu cofnodi. Disgwylir i'r Cadeirydd graffu ar yr hyn a wnaed mewn ymateb i'r pwyntiau sy'n codi o ymweliadau a chyfarfodydd. Rhaid i'r Cadeirydd fodloni ei hun a'i gyd-ymwelwyr bod yr esboniadau a roddir yn ddigonol, ac nad yw'r canlyniad yn cael unrhyw effaith negyddol ar les, hawliau dynol neu iechyd a diogelwch y carcharor.

Disgwylir i'r Cadeirydd gynorthwyo'r broses o recriwtio a phenodi Ymwelwyr yn ardal ei Banel.

Disgwylir i’r Cadeirydd gynnal trafodaeth reolaidd â Swyddfa’r Comisiynydd ynghylch pob mater arall, megis anghenion hyfforddi, ymddygiad ei gyd-ymwelwyr, cyflenwadau defnyddiau swyddfa, a threfn y rota.

### 12.1 Trefniadau Trafnidiaeth

Cyfrifoldeb unigol pob Ymwelydd yw gwneud ei drefniadau ei hun ar gyfer ymweliadau. Er bod y Comisiynydd yn cefnogi rhannu trafnidiaeth lle bo modd, cyfrifoldeb Ymwelydd heb ei gerbyd ei hun yw gwneud trefniadau amgen, er enghraifft defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

### 12.2 Ymweld â Gorsaf Heddlu

Ni fydd heddweision y ddalfa yn ymateb i Ymwelwyr ond pan fyddant yn bresennol mewn gorsaf heddlu. Ni fyddant yn ymateb i ymholiadau ffôn. Er mwyn pwysleisio eu didueddrwydd, ni ddylai Ymwelwyr gyfuno ymweliad â'r ddalfa ag unrhyw fusnes arall.

### 12.3 Ymweliadau ar gais yr heddlu

Er y dylai ymweliadau fod yn ddirybudd fel arfer, gall fod adegau pan fydd tyndra penodol yn y gymuned leol am driniaeth neu lesiant un neu fwy o garcharorion. Dan y fath amgylchiadau, caiff Arolygydd neu Ringyll y Ddalfa wahodd Ymwelwyr i’r ddalfa er mwyn chwalu mythau a sïon. Dylid gwneud y fath gais trwy Swyddfa’r Comisiynydd, a fydd yn ymdrechu i drefnu ymweliadau mor amserol â phosibl.

### 12.4 Trefniadau Gweithio Effeithiol

I’r cynllun fod yn effeithiol, mae’n hanfodol bod Ymwelwyr yn cynnal perthynas weithio effeithiol â heddweision a staff, ar sail cyd-barch a chyd-ddealltwriaeth o’u cyfrifoldebau. Ni all y fath berthynas fodoli heb gwrteisi ac ystyriaeth ar y ddwy ochr.

Mae angen i Ymwelwyr osgoi bod yn rhy gyfeillgar â staff y ddalfa, a rhaid iddynt fod yn annibynnol o'r heddlu ar bob adeg. Os ymddengys bod Ymwelwyr yn rhy gyfeillgar â staff y ddalfa, gallai carcharorion amau eu hannibyniaeth.

Ar ben hynny, rhaid i Ymwelwyr ddangos yr un parch tuag at eu Cyd-ymwelwyr. Rhaid i bob Ymwelydd gefnogi ei Gyd-ymwelwyr, gweithio fel rhan o dîm, a chwarae rhan weithgar a chyfartal yn ystod yr ymweliadau. Dylech nodi nad yw’r gwahaniaeth rhwng ‘Ymwelydd 1’ ac ‘Ymwelydd 2’ yn y rota ond yn nodi pwy sy’n arwain wrth drefnu'r ymweliad.

## 13. Gweithdrefnau Ymweld â’r Ddalfa

### 13.1 Gwisg Ymwelwyr

Rhaid i Ymwelwyr ystyried eu gwisg wrth wneud ymweliad, o ran sut maent yn ymddangos i garcharorion a staff y ddalfa, ac o ystyried iechyd a diogelwch. Yn gyffredinol, ‘trwsiadus anffurfiol’ fydd fwyaf addas.

Cynghorir Ymwelwyr i beidio â gwisgo siwt gan y gallai hynny roi’r argraff o awdurdod a allai fod yn rheswm i’r carcharor beidio â gadael i'r ymweliad fynd yn ei flaen. Dylid ystyried goblygiadau iechyd a diogelwch rhai dillad ac atodion megis tei, tlysau, sgarff neu sodlau uchel.

## 13.2 Wrth gyrraedd Gorsaf Heddlu

Wrth gyrraedd, dylai Ymwelwyr ddangos eu cardiau adnabod i'r aelod o staff neu heddwas sy'n eu cyfarch, a ddylai ganiatáu mynediad i'r orsaf yn syth. Ni ddylai fod unrhyw reswm dros oedi bryd hynny. Os oes oedi, dylai'r Ymwelwyr ofyn am esboniad a nodi hynny ar y ffurflen adrodd.

Os bydd yr orsaf ar gau, bydd Ymwelwyr yn cysylltu â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu trwy ddefnyddio'r gloch wrth y brif fynedfa, gan ddweud wrth y staff pwy ydynt a phwrpas eu hymweliad. Dylai Ymwelwyr ofyn am gael siarad â heddwas yn y ddalfa er mwyn sicrhau mynediad ar gyfer yr ymweliad. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r Ymwelwyr lenwi'r ffurflen adrodd gan nodi'r ffaith, a chanslo'r ymweliad.

## 13.3 Mynediad syth i ddalfa

Dylai Ymwelwyr gael mynediad syth i ddalfa. Bydd unrhyw oedi'n niweidiol i hygrededd y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Nid yw'n briodol oedi mynediad oherwydd bod heddwas y ddalfa'n brysur. Ni ddylai oedi cyn rhoi mynediad oni fydd perygl i'r Ymwelwyr, er enghraifft os oes helynt ar y gweill yn y ddalfa. Dylid rhoi esboniad llawn i'r Ymwelwyr am unrhyw oedi. Dylid nodi'r esboniad hwnnw ar y ffurflen adrodd a dylai heddwas y ddalfa gymeradwyo'r nodyn ar y ffurflen.

Os oes oedi dan amgylchiadau eraill, dylai'r Ymwelwyr gael mynediad i'r ddalfa a dylid eu gwahodd i aros tan fod heddwas y ddalfa neu heddwas arall ar gael i'w hebrwng ar yr ymweliad. Os bydd carcharor yn y broses o gael ei dderbyn i'r ddalfa ar adeg yr ymweliad, rhaid i heddwas y ddalfa ofyn iddo os yw'n cydsynio i'r Ymwelwyr fod yn bresennol. Os nad yw'n cydsynio, caiff yr Ymwelwyr aros neu, gyda chaniatâd heddwas y ddalfa, ymweld â rhan arall o'r ddalfa.

## 13.4 Diogeledd a Diogelwch

Er mwyn sicrhau diogeledd a diogelwch Ymwelwyr, rhaid i Ringyll y Ddalfa neu aelod arall o staff y ddalfa hebrwng yr Ymwelwyr yn ystod eu hymweliad.

## 13.5 Teledu Cylch Cyfyng

Rhaid i Ymwelwyr gyflawni eu dyletswyddau mewn person, nid trwy wylio lluniau TCC neu gofnodion TCC. Mae rôl yr Ymwelwyr yn sylfaenol ryngweithiol gyda charcharorion a staff y ddalfa, ac nid oes modd ei gyflawni o bell.

## 13.6 Mynediad i bob rhan o'r ddalfa

Dylai Ymwelwyr gael mynediad i bob rhan o'r ddalfa lle mae modd dal carcharorion, can gynnwys celloedd, ystafelloedd carcharu, ardaloedd cyhuddo, iardiau ymarfer corff ac ardaloedd paratoi bwyd (ac eithrio ystafelloedd cyfweld ac ystafelloedd meddygol tra eu bod yn cael eu defnyddio).

## 13.7 Ymweliadau â Charcharorion

Yn ardal Dyfed-Powys, anaml iawn yw sefyllfa lle delir cymaint o garcharorion nad yw'n bosibl i'r Ymwelwyr eu gweld i gyd. Fodd bynnag, os bydd nifer uchel o garcharorion, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol eu gweld i gyd, o safbwynt yr Ymwelwyr ac o ystyried y gwaith ychwanegol y bydd ei angen gan staff y ddalfa. Dylai Ymwelwyr benderfynu faint o garcharorion y byddant yn

ymweld â nhw ym mhob ymweliad.  Mae'n bwysig dewis carcharorion y tybir eu bod yn agored i niwed.

### 13.8 Cydsyniad y carcharor i weld yr Ymwelwyr
Nid oes gorfodaeth ar garcharorion i weld Ymwelwyr nac ychwaith i ateb eu cwestiynau.  Rhaid gofyn iddynt a ydynt yn fodlon gweld yr Ymwelwyr.  Gall yr heddwas sy'n hebrwng yr Ymwelwyr ofyn a yw carcharor yn dymuno eu gweld, neu gall yr Ymwelwyr eu hunain ofyn.

Defnyddir geiriau safonol wrth i heddwas ofyn i garcharor a yw'n dymuno gweld yr Ymwelwyr. Fel arfer, bydd fel a ganlyn:

*Gyda mi, mae dau aelod o'r cyhoedd a elwir yn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Hoffen nhw ofyn i chi sut yr ydych chi wedi cael eich trin tra eich bod yn y ddalfa, a gwirio bod eich hawliau wedi'u hesbonio i chi a'u parchu. Dydyn nhw ddim yn cael eu cyflogi gan yr heddlu. Eich dewis chi yw eu gweld nhw ai peidio. Ydych chi'n dymuno eu gweld nhw?*

SYLWER: Er bod y geiriau safonol yn rhan o'r cynllun, yn aml iawn fe'u defnyddir fel canllaw yn unig.

Cyhyd â bod Ymwelwyr yn fodlon bod eu rôl wedi'i esbonio (gyda phwyslais arbennig ar eu hannibyniaeth), derbynnir bod hynny'n rhesymol.

Gyda'r cyfyngiadau a nodir ym mharagraffau 13.10, 13.13 a 13.14 isod, caiff Ymwelwyr weld unrhyw unigolyn a ddelir mewn gorsaf heddlu, gan gynnwys unigolion sydd wedi eu remandio dan ddarpariaethau'r deddfau canlynol:

- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;
- Deddf Llysoedd Ynadon 1980 - unigolion a anfonwyd yn ôl i ddalfa'r heddlu yn unol ag Adran 128 o'r ddeddf, fel y'i diwygiwyd;
- Deddf Carcharu (Darpariaethau Dros Dro) 1980 - carcharorion wedi'u remandio ac wedi'u dedfrydu a ddelir yng nghelloedd yr heddlu o dan Adran 6 o'r ddeddf;
- Deddf Mewnfudo 1971 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 - unigolion sydd yn destun trafodion alltudio neu sy'n aros eu symud o'r Deyrnas Unedig am fod yn fewnfudwyr anghyfreithlon;
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 - unigolion a ddelir dan y ddeddf er eu lles eu hunain; a
- Deddf Plant 1989 - plant a gymerwyd i warchodaeth yr heddlu.

### 13.9 Carcharorion y mae'r Ymwelwyr yn eu hadnabod
Cyn mynd i mewn i gell, dylai Ymwelwyr edrych ar y carcharor trwy'r twll neu'r ffenest i wirio a ydynt yn adnabod yr unigolyn.  Ni ddylai Ymwelwyr ymweld â chyfeillion neu berthyn yn y ddalfa, a rhaid i'r ddau Ymwelydd ymatal rhag gweld carcharor os bydd un ohonynt yn ei adnabod.

Os bydd Ymwelydd yn adnabod carcharor nad yw'n gyfaill personol nag yn berthyn, rhaid i'r Ymwelwyr ddefnyddio eu doethineb wrth benderfynu mynd ymlaen â'r ymweliad ai peidio.  Rhaid gofalu na chyfaddawdir ar ddidueddrwydd ar unrhyw adeg.

**13.10 Carcharorion nad ydynt yn gallu cydsynio i ymweliad**
Os bydd carcharor dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau i’r fath raddau nad yw’n gallu rhoi neu wrthod cydsyniad, neu os na fydd, am ryw reswm arall, yn gallu nodi a yw’n fodlon ai peidio, dylai'r heddwas sy’n hebrwng yr Ymwelwyr, ar gais yr Ymwelwyr, ganiatáu mynediad oni ystyrir y gall fod perygl i'w diogelwch.

Os bydd yr heddwas o’r farn ei bod yn rhy beryglus i Ymwelwyr fynd i mewn i’r gell, gallant ddymuno siarad â'r carcharor trwy’r twll yn nrws y gell. Os na fydd y carcharor yn ymateb, dylai'r heddwas ganiatáu mynediad os bydd yr Ymwelwyr yn dymuno bodloni eu hun am lesiant y carcharor. Os bydd ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch y carcharor, gallant ofyn am weld cofnodion y ddalfa am y carcharor. (Gweler 13.19 isod).

**13.11 Cyfieithu**
Mae Heddlu Dyfed-Powys yn tanysgrifio i wasanaethau cyfieithu dros y ffôn er mwyn cael gafael ar gyfieithwyr sydd wedi’u hyfforddi’n drylwyr yn Saesneg a’r iaith berthnasol arall.

Os bydd Ymwelwyr yn dod o hyd i garcharor nad yw’n medru Saesneg ac maent yn dymuno ei holi am ei lesiant, dylai’r Ymwelwyr esbonio i heddwas y ddalfa eu bod am ddefnyddio’r gwasanaeth cyfieithu. Pan fydd y cyfieithydd ar y ffôn, dylai'r Ymwelwyr esbonio eu rôl a’r cwestiynau maent am eu gofyn. Wedyn, dylai'r Ymwelwyr basio’r ffôn yn ôl ac ymlaen rhyngddyn nhw a’r carcharor.

**13.12 Gwrthod mynediad at ddalfa neu garcharor**
Caiff yr heddlu gyfyngu ar, neu wrthod, mynediad i ddalfa gan Ymwelwyr os bydd heddwas ar reng Arolygydd neu’n uwch yn credu ar sail resymol bod angen gwneud hynny er mwyn diogelwch yr Ymwelwyr. Hefyd, caiff y fath heddwas wrthod neu gyfyngu ar fynediad ar sail cred resymol y gallai caniatáu mynediad amharu ar y broses cyfiawnder.

Mewn sefyllfa o'r fath, dylid cofnodi’r ffaith yng nghofnod y ddalfa ar gyfer y carcharor dan sylw (gyda’r awdurdodiad perthnasol) ac yn ffurflen adrodd yr Ymwelwyr.

**13.13 Carcharorion sy’n cysgu**
Os bydd carcharor yn cysgu, dylai Ymwelwyr benderfynu a ddylid ei ddeffro i holi a yw am gael ymweliad. Fodd bynnag, dylai Ymwelwyr gofio’r ddarpariaeth o dan God C o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol sef bod yn rhaid caniatáu i garcharorion gael wyth awr o orffwys di-dor.

Dan y fath amgylchiadau, neu le gallai'r carcharor fod yn dreisiol, bydd yr heddwas sy’n hebrwng yr Ymwelwyr yn eu cynghori na ddylid deffro’r unigolyn, ond bod modd arsylwi arno trwy’r twll yn y drws.

Os bydd Ymwelwyr yn penderfynu y dylid deffro carcharor, cyfrifoldeb yr heddwas yw gwneud hynny.

**13.14 Ymweld â phlant yn y ddalfa**
Gellir ymweld â phlentyn yn y ddalfa gyda'i gydsyniad. Nid oes rhaid cael cydsyniad ychwanegol rhiant neu warcheidwad, er y byddai hynny'n well, yn ddelfrydol.

Os oes Oedolyn Addas yn bresennol i gynorthwyo plentyn neu unigolyn agored i niwed yn y ddalfa, dylid holi i'r carcharor a yw'n dymuno i'r Oedolyn Addas fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad, gan barchu'r penderfyniad hwnnw.

Ni ddylid rhoi plant yn y ddalfa mewn celloedd oni bai nad oes lle diogel arall ar gael i'w cadw ac os nad yw heddwas y ddalfa o'r farn bod modd ymarferol i'w goruchwylio y tu allan i gell. Os caiff plentyn ei gadw mewn cell, dylai Ymwelwyr geisio esboniad gan heddwas y ddalfa a gwirio bod hynny wedi'i nodi ar gofnod y ddalfa.

**13.15 Pobl a ddelir o dan Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**
Er nad yw'r hawliau a roddir gan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn berthnasol, os bydd unigolyn a ddelir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y ddalfa ar adeg ymweliad, argymhellir ystyried ymweld ag e hefyd, os yw hynny'n addas.

Caiff unigolyn ei ddal a'i gludo i le diogel o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl os ymddengys ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl a bod angen gofal neu reolaeth ar unwaith. Mae diwygiadau i Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 yn datgan na ddylid defnyddio'r ddalfa fel lle diogel ond dan amgylchiadau eithriadol megis risg difrifol o niwed neu farwolaeth i'r unigolyn neu i bobl eraill, neu os na fydd lle diogel arall yn ardal yr heddlu a all dderbyn yr unigolyn oherwydd y fath fygythiad. Ar yr adegau prin pan ddefnyddir y ddalfa fel lle diogel, rhaid i unigolyn a ddelir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gael ei asesu bob 30 munud gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Ni ddylid mynd ag unrhyw blentyn i orsaf heddlu fel lle diogel o dan Adran 136.

**13.16 Pobl a ddelir dan Ddeddf Terfysgaeth 2000**
Ni ellir mynd â neb a ddelir dan y Ddeddf Terfysgaeth i ddalfa yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Rhaid mynd â nhw i ddalfa a addaswyd yn bwrpasol ar gyfer y fath garcharorion, ac ar hyn o bryd nid oes dalfa o'r fath yn Nyfed-Powys.

Dim ond Ymwelwyr sydd wedi cael gwiriad uwch ac sydd wedi'u hyfforddi i ymweld â charcharorion a ddelir dan ddeddfwriaeth terfysgaeth gaiff ymweld â'r fath garcharorion. Hefyd, rhaid iddynt fod yn Ymwelwyr yn yr ardal lle lleolir y ddalfa. Felly, nid oes angen gwirio na hyfforddi Ymwelwyr Dyfed-Powys i lefel uwch.

**13.17 Oedolion Addas**
Ni chaiff Ymwelydd wirfoddoli i weithredu fel "Oedolyn Addas" ar gyfer plentyn neu unrhyw gategori arall o garcharor tra ei fod yn aelod o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Ni dderbynnir ceisiadau newydd gan ymwelwyr dalfa â diddordeb os ydynt yn Oedolyn Priodol ar hyn o bryd yn yr un ardal. Mae hyn oherwydd gwrthdaro

buddiannau yn y ddwy rôl, gan y gallai ymwelwyr dalfa gael achos weithiau i roi adborth beirniadol ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau Oedolyn Priodol yn yr ardal maent yn ymweld â hi. Gan hynny, mae elfen annibyniaeth y rôl Ymwelydd Dalfa'n atal un person rhag cyflawni'r rolau ymwelydd annibynnol â'r ddalfa ac oedolyn priodol mewn dalfa.

Eithriadau

Gall ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa weithredu fel oedolyn priodol:

- mewn perthynas â phlentyn, os mai ef/hi yw'r rhiant neu'r gwarcheidwad; neu
- mewn perthynas ag oedolyn agored i niwed, os yw'n perthyn iddo/iddi, neu os mai ef/hi yw'r gwarcheidwad neu unigolyn arall sy'n gyfrifol am ei (g)ofal neu ei (g)warchodaeth.

### 13.18 Carcharorion ar remand neu wedi'u dedfrydu

Delir y fath garcharorion o dan Orchymyn y Gwasanaeth Carchardai 1801, ac mae angen lefel uwch o gyfrinachedd gan Ymwelwyr.

Mae'n bosibl y bydd carcharorion ar remand neu wedi'u dedfrydu a ddelir mewn gorsaf heddlu'n ceisio cwyno am yr amodau mewn carchardy neu'r driniaeth a gawsant yno. Rhaid i Ymwelwyr beidio ag ymwneud â'r fath faterion. Mae gweithdrefnau achwyn ffurfiol ar gael i garcharorion megis ysgrifennu at, neu wneud cais i, yr Ysgrifennydd Cartref neu ysgrifennu at eu cyfreithiwr neu Aelod Seneddol.

Mae gan gontractwyr gwasanaeth hebrwng y llys eu gweithdrefnau eu hunain hefyd am gofnodi cwynion yn erbyn eu staff. Caiff unrhyw gŵyn sy'n honni bod trosedd wedi'i chyflawni ei hadrodd yn syth i'r heddlu ac i Wasanaeth Monitro Carchardai Ei Mawrhydi. Caiff unrhyw gŵyn a wneir i'r contractwyr sy'n cyfateb i gŵyn i'r heddlu ei chyfeirio i'r heddlu i'w hymchwilio.

### 13.19 Mynediad at Gofnod y Ddalfa am garcharor

Argymhellir y dylai Ymwelwyr ofyn am gael gweld cofnodion y ddalfa ar gyfer carcharor os bydd ganddynt unrhyw bryder o ran lles y carcharor a/neu o ran parchu ei hawliau.

Caiff Ymwelwyr weld y cofnodion os oes ganddynt y fath bryderon, ac os yw un o'r ddau amod canlynol yn cael ei fodloni:

1) Mae'r carcharor yn rhoi ei gydsyniad ar lafar, a rhaid nodi hynny ar ffurflen adrodd yr Ymwelwyr ac ar gofnodion y ddalfa ar gyfer yr unigolyn hwnnw; neu

2) Mae'r Ymwelwyr o'r farn nad yw'r carcharor yn gallu penderfynu a ddylai gydsynio. Doethineb yr Ymwelwyr fydd yn penderfynu a yw'r carcharor yn gallu cydsynio, a dylid cofnodi eu rhesymeg wrth ddod i'r penderfyniad ar y

ffurflen adrodd ac yng nghofnodion y ddalfa. Mae cyfarwyddyd ynghylch hyn ar gael i Ymwelwyr yn Safonau Cenedlaethol y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, sy'n datgan:

> *"Mae ystyr arferol y gair [anallu] yn berthnasol - mae'n ymwneud â gallu'r unigolyn i wneud penderfyniad gwybodus a yw'n caniatáu i'r Ymwelwyr weld cofnod y ddalfa amdano ar yr adeg y byddai'r Ymwelwyr yn gofyn am ei gydsyniad. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i'r Ymwelwyr fonitro lles pobl yn y categorïau canlynol: pobl feddw neu dan ddylanwad cyffuriau, pobl nad ydynt yn medru'r iaith Saesneg, a phobl sy'n dangos nodweddion problem iechyd meddwl."*

Wrth edrych ar gofnodion y ddalfa, mae'n bosibl y bydd Ymwelwyr yn dymuno gwirio:

- bod y carcharor wedi cael ei hawliau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, ac wedi llofnodi i gadarnhau hynny;
- bod meddyginiaethau, anafiadau, archwiliadau meddygol a phrydau/deiet wedi'u cofnodi;
- bod y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i asesu unrhyw risg i'r carcharor neu unrhyw achos i gredu ei fod yn agored i niwed wedi'u cofnodi'n gywir;
- amseriad ac amlder archwiliadau celloedd carcharorion meddw neu agored i niwed am reswm arall; ac
- amseriad adolygiadau o'r angen i gadw'r unigolyn yn y ddalfa.

Caiff Ymwelwyr wirio a yw'r cofnodion yn cyfateb i'r hyn a glywsant gan y carcharor.

Dylid gwneud y cais i weld y cofnod i Ringyll y Ddalfa a fydd yn dangos y cofnod i'r Ymwelwyr. Fel arfer, bydd yn argraffu copi o'r ddogfen iddynt, er y gall rhai ganiatáu i'r Ymwelwyr edrych ar y cofnod ar y cyfrifiadur. Dylid rhoi unrhyw waith papur yn ôl i Ringyll y Ddalfa ar ôl ei wirio.

Dim ond heddwas o reng Arolygydd neu uwch all wrthod mynediad at gofnod y ddalfa. Os digwydd hynny, rhaid i Ymwelwyr gofnodi'r ffaith ar y ffurflen adrodd gan nodi'r rheswm a roddwyd.

Rhaid trin yr wybodaeth yn gyfrinachol ac mae'n ofynnol i Ymwelwyr lofnodi datganiad cyfrinachedd ar gyfer pob ymweliad.

Os bydd carcharor y tybir nad yw'n gallu cydsynio'n teimlo'n anfodlon wedyn bod yr Ymwelwyr wedi penderfynu gweld y cofnod, caiff hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd am ei anfodlonrwydd. Caiff cwynion eu trin yn unol â gweithdrefnau achwyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

### 13.20 Carcharorion sy'n cael eu cyfweld

Os yw unigolyn yn cael ei gyfweld, ni chaiff Ymwelwyr amharu ar y cyfweliad. Os bydd yr Ymwelwyr yn dymuno gweld yr unigolyn yn hwyrach yn yr ymweliad ar ôl i'r cyfweliad orffen, cânt wneud hynny, ac, os oes angen, cânt aros yn y ddalfa neu ystafell aros er mwyn gwneud hynny.

### 13.21 Sgyrsiau rhwng Ymwelwyr a Charcharorion

Lle bo'n ymarferol, dylai'r heddwas sy'n hebrwng yr Ymwelwyr symud fel nad yw'n gallu clywed ond fel ei fod o fewn golwg i'r fath raddau y bydd hynny'n

ymarferol. Lle nad yw hynny’n bosibl, ni ddylai’r heddwas wrando’n weithgar neu gymryd rhan mewn unrhyw ran o'r ymweliad.

Os bydd heddweision yn penderfynu, am ba reswm bynnag, y dylai'r heddwas aros o fewn pellter clywed, rhaid i'r fath benderfyniad gael ei wneud gan yr heddwas sydd ar ddyletswydd neu gan uwch heddwas arall yn yr orsaf heddlu. Dylai Ymwelwyr gofio, fodd bynnag, y gall rhai carcharorion fod yn dreisiol neu dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu sylweddau eraill ac y gall presenoldeb yr heddwas atal neu rwystro ymosodiadau ar yr Ymwelwyr.

Rhaid i'r drafodaeth ganolbwyntio ar wirio a yw hawliau statudol y carcharorion wedi’u hesbonio iddynt ac a ydynt wedi cael rhybudd ysgrifenedig o’r hawliau hynny. Dylent hefyd fodloni eu hunain bod y carcharorion wedi cael y cyfleusterau yn unol â’r hawliau a roddir iddynt dan God C o Godau Ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Gweler Atodiad B am ragor o wybodaeth am hawliau carcharorion o dan y Ddeddf. Hefyd, mae cyfarwyddyd ar gefn y ffurflenni adrodd y gall Ymwelwyr gyfeirio ato yn ystod ymweliad.

Dylai Ymwelwyr fod yn ymwybodol o'r posibiliad y byddant yn cyfleu neu ail-adrodd gwybodaeth o un carcharor i un arall yn ddifwriad. Nid yw trafodaethau rhwng Ymwelwyr a charcharorion yn destun braint, ac mae cyfrifoldeb dinesig ar Ymwelwyr i ddatgelu unrhyw wybodaeth a roddir iddynt. Cyfrifoldeb yr Ymwelwyr yw hysbysu carcharorion y caiff unrhyw ddatgeliad a wneir ganddynt ei adrodd wrth heddwas y ddalfa.

Rhaid i Ymwelwyr aros yn ddiduedd a pheidio â cheisio ymwneud â’r broses ymchwilio mewn unrhyw ffordd. Os bydd carcharor yn ceisio cyfaddef rhywbeth neu drafod troseddwr honedig mewn unrhyw ffordd, rhaid i Ymwelwyr ei hysbysu y gellid datgelu cynnwys y sgwrs mewn trafodion cyfreithiol.

Os bydd carcharor yn awgrymu y gallai niweidio ei hun neu rywun arall, rhaid tynnu hyn at sylw staff y ddalfa ar unwaith.

**13.22 Cyflwr Meddygol**

Bydd Ymwelwyr yn dymuno rhoi sylw penodol i garcharorion sy’n dioddef unrhyw fath o salwch, anaf, anabledd corfforol neu ddysgu, neu gyflwr iechyd meddwl. Dylent fodloni eu hunain bod archwiliwr meddygol wedi’i alw, lle bo’n addas, a holi i heddwas y ddalfa pa gyfarwyddiadau sydd wedi’u rhoi o ran triniaeth feddygol. Dylid cadarnhau hynny trwy graffu ar gofnod y ddalfa, os cafwyd y cydsyniad angenrheidiol. (Gweler Adran 13.19.)

Caiff Ymwelwyr ymweld â charcharorion (ond nid unigolion sydd wedi’u rhyddhau o’r ddalfa) yn yr ysbyty, a ydynt dan warchodaeth yr heddlu ai peidio, gyda chydsyniad heddwas y ddalfa a rheolwyr yr ysbyty. I osgoi gwastraffu siwrnai, gall fod yn ddoeth gofyn, trwy'r ysbyty, a yw’r carcharor yn fodlon siarad â’r Ymwelwyr. Os bydd carcharor mewn ysbyty dan warchodaeth yr heddlu, bydd yr heddwas yn aros gyda’r carcharor trwy'r amser. Ni chaniateir mynediad at gofnodion y ddalfa ond pan fydd y carcharor wedi cydsynio yn y ffordd arferol.

Dylai Rhingyll y Ddalfa hysbysu Ymwelwyr os defnyddiwyd chwistrelliad PAVA ar y carcharor. Os bydd Ymwelwyr o'r farn bod carcharor yn dioddef oherwydd effeithiau chwistrelliad PAVA neu o ganlyniad i ddefnyddio grym o fath arall, dylent dynnu hyn at sylw rhingyll y ddalfa, sydd â'r cyfrifoldeb o geisio cymorth meddygol.

**13.23 Gwiriadau Amgylcheddol**
Mae Atodiad C yn rhestru'r gwiriadau amgylcheddol y dylai Ymwelwyr eu hystyried.

**13.24 Marwolaethau yn y ddalfa**
Mae pob marwolaeth yn y ddalfa yn destun i Gwest Crwner ac ymchwiliad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a bydd yr heddlu'n ateb yn ffurfiol iddynt. Pan fydd unigolyn yn marw yn y ddalfa, bydd Prif Arolygydd y Ddalfa yn hysbysu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu cyn gynted â phosibl.

**13.25 Cwynion gan garcharorion**
Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng cwynion gan garcharorion am eu triniaeth gyffredinol neu am amodau'r ddalfa, a chwynion am gamymddygiad gan heddwas. Gall y categori cyntaf gynnwys cwynion megis methu hysbysu carcharor am ei hawliau statudol neu fethu derbyn y cyfleusterau y mae ganddo hawl iddynt o dan Godau Ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Yn amlwg, mae'r fath gwynion yn faterion y dylai'r Ymwelwyr fynd i'r afael â nhw trwy siarad â heddwas y ddalfa neu uwch heddweision yn yr orsaf heddlu adeg yr ymweliad.

Os bydd carcharor yn dymuno gwneud cwyn am gamymddygiad a/neu ymosodiad gan heddwas, dylai Ymwelwyr gynghori'r carcharor i dynnu hynny at sylw'r Arolygydd sydd ar ddyletswydd. Er mwyn parhau i fod yn hollol ddiduedd, ni ddylai Ymwelwyr ymwneud ag achosion unigol na dadlau ar ran carcharorion.

Hefyd, dylai Ymwelwyr awgrymu y gallai'r carcharor ddymuno ceisio cyngor cyfreithiol cyn gwneud y gŵyn. Lle gwneir cwyn am ymosodiad corfforol, dylai Ymwelwyr awgrymu bod y carcharor yn gofyn am weld meddyg hefyd. (Sylwer: wrth dderbyn cwyn swyddogol, bydd yr arolygydd sydd ar ddyletswydd yn trefnu i'r carcharor weld meddyg beth bynnag.)

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn hysbysu Ymwelwyr (trwy Swyddfa'r Comisiynydd) am ganlyniad y fath gŵyn ar gais y Comisiynydd.

## 14. Diduedddrwydd a Chyfrinachedd

**14.1 Cyngor i garcharorion**
Ni ddylai Ymwelwyr ymwneud ag achosion unigol i'r fath raddau eu bod yn cynnig cyngor a ddylai carcharor wneud datganiad neu gydweithredu ag ymholiadau'r heddlu. Byddai'r fath gyngor yn anghyson ag annibyniaeth yr Ymwelwyr o'r prosesau ymchwilio.

### 14.2 Cysylltiad â phobl y tu allan i'r orsaf heddlu
Ni ddylai Ymwelwyr gytuno i gysylltu ag unrhyw unigolyn y tu allan i'r orsaf heddlu ar gais carcharor. Ni ddylent gytuno i gyfleu neges i garcharor arall ychwaith, na chynnig cyflawni unrhyw dasg ar ran y carcharor. Os bydd carcharor yn gofyn iddynt wneud un o'r pethau hyn, rhaid iddynt hysbysu heddwas y ddalfa'n syth.

### 14.3 Ymwelwyr yn tystio mewn trafodion troseddol
Nid oes braint o ran sgwrs rhwng Ymwelwyr a charcharor, a byddai'n agored i lys gyhoeddi gwŷs yn gofyn bod Ymwelydd yn ymbresenoli mewn llys i roi tystiolaeth ar lafar neu ryddhau dogfennau megis adroddiad ar ymweliad penodol. Nid oes unrhyw orfodaeth ar Ymwelwyr i roi tystiolaeth neu ryddhau dogfennau ond wrth ymateb i Orchymyn Llys.

### 14.4 Cyfrinachedd
Bydd Ymwelwyr yn casglu cryn dipyn o wybodaeth bersonol am unigolion yn y ddalfa. Fydd y mwyafrif ohonynt heb ymddangos o flaen llys ar y pryd, a fydd llawer byth yn ymddangos o flaen llys. Rhaid diogelu gwybodaeth bersonol am garcharorion rhag datgeliad amhriodol neu ddiangen. Felly, gofynnir i Ymwelwyr lofnodi cytundeb (sydd wedi'i gynnwys yn y ffurflen adrodd) na fydd yn rhyddhau enw unrhyw unigolyn yn y ddalfa, nag unrhyw wybodaeth a allai adnabod unigolion (ac eithrio lle trefnwyd ymweliad eithriadol yn gysylltiedig â thriniaeth unigolyn penodol).

Mae'n ddymunol, er mwyn cadw at egwyddorion cyfrinachedd llwyr, nad yw Ymwelwyr yn enwi, na datgelu gwybodaeth a allai adnabod, unigolyn yn y ddalfa, hyd yn oed mewn adroddiadau i, neu drafodaethau â, Chyd-ymwelwyr neu Swyddfa'r Comisiynydd.

Rhoddir enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn Ymwelwyr i Ymwelwyr eraill dan amod o gyfrinachedd llwyr. Ni rennir y fath wybodaeth ond er mwyn hwyluso cysylltu i drefnu ymweliadau ac yn y blaen. Ni ddylid datgelu'r fath fanylion i neb arall. Mae'r un amod yn weithredol o ran staff yr heddlu.

### 14.5 Torri cyfrinachedd
Gall torri'r cytundeb hwn olygu bod Ymwelydd yn agored i achos sifil gan y carcharor dan sylw. Dylai Ymwelwyr fod yn ymwybodol y gellir tybio bod datgelu ffeithiau ynghylch gweithredoedd yr heddlu neu ddiogeledd gorsafoedd heddlu yn drosedd o dan Adran 5 o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

## 15. Ffurflenni Adrodd Ymwelwyr a Gweithredu Dilynol
### 15.1 Cwblhau Ffurflenni Adrodd
Bydd y ddau Ymwelydd yn gwneud eu hadroddiad ar y ffurflen a ddarperir iddynt. Rhaid i'r ddau ohonynt lofnodi'r ffurflen.

Dylid anfon y copi cyntaf (gwyn) at Swyddfa'r Comisiynydd gan ddefnyddio'r amlen ragdaledig a ddarperir. Os na fydd y ddau ymwelydd yn gytûn ar y sylwadau, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn anfon y manylion at y Prif Arolygydd a'r Arolygydd sy'n gyfrifol am y ddalfa dan sylw gan ofyn am sylwadau a gweithredu fel bo angen.

Dylid adael yr ail gopi (pinc) yn yr orsaf heddlu lle caiff ei archwilio mewn ymweliadau dilynol. Ni chaiff Ymwelwyr gadw copi o'r adroddiad.

### 15.2 Adroddiadau am driniaeth neu amodau anfoddhaol

Os bydd ymweliad yn amlygu unrhyw agwedd anfoddhaol ar driniaeth carcharorion neu amodau yn y ddalfa, dylid nodi hynny ar y ffurflen adrodd a'i dynnu at sylw heddwas y ddalfa ar y pryd. Dylid nodi unrhyw weithredu gan yr heddwas ar y ffurflen adrodd hefyd.

### 15.3 Adroddiadau ar faterion sy'n codi o ymweliad

Tynnir sylw Arolygydd y ddalfa berthnasol at unrhyw faterion sy'n codi o ymweliad, gan ofyn iddo ddarparu diweddariad neu ymateb i'r sylwadau gan nodi unrhyw weithredu yn eu cylch. Lle bo angen, tynnir y sylwadau at sylw'r Prif Arolygydd sy'n gyfrifol am y ddalfa.

## 16. Monitro'r cynllun

Er mwyn cyflawni amcanion y cynllun, cyflwynir adroddiadau am dueddiadau sy'n codi o ymweliadau i'r Comisiynydd, sy'n monitro bob agwedd ar y cynllun ar draws Dyfed-Powys.

## 17. Cynllun Adolygu Cofnodion Dalfa

Nôl ym mis Medi 2019, gweithiodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) Swydd Derby a'r Swyddfa Gartref er mwyn treialu cynllun lle'r oedd cofnodion yn cael eu hadolygu er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o'r hyn sy'n digwydd mewn dalfeydd. Ystyriwyd bod y cynllun peilot yn llwyddiannus a'i fod wedi helpu i nodi nifer o faterion, gan gynnwys:

- gofal ar gyfer y rhai sy'n dioddef salwch meddwl;
- mynediad at welyau iechyd meddwl;
- mynediad at oedolion priodol; a
- gofal ar gyfer carcharorion benywaidd.

Arweiniodd llwyddiant y cynllun peilot yn Swydd Derby at y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd cysylltu â chynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa eraill â golwg ar ehangu'r cynllun peilot i ardaloedd eraill. Roedd Dyfed-Powys yn un o 5 ardal heddlu a ddewiswyd. Ystyriwyd bod adolygu cofnodion dalfa yn y 5 heddlu'n llwyddiannus ac yn ychwanegiad cadarnhaol i'r rôl Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd.

Mae cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Dyfed-Powys wedi parhau i adolygu cofnodion dalfa ers y cynllun peilot ac yn cynnig cyfle i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Dalfa wirfoddoli ar gyfer yr agwedd ychwanegol hon i'r rôl. Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag adolygu cofnodion dalfa fel rhan o'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, a'r newidiadau cadarnhaol a wnaed yn sgil yr ymagwedd hon, darllenwch y llawlyfr adolygu cofnodion dalfa.

## 18. Y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn aelod o'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Mae'r Gymdeithas yn sefydliad a ariennir gan y Swyddfa Gartref i hyrwyddo a chefnogi sicrhau darpariaeth

ymweld yn genedlaethol. Mae'r Gymdeithas yn cydweithio’n agos â’r llywodraeth a sefydliadau chyfiawnder troseddol i:

- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am hawliau, iechyd a lles pobl a ddelir mewn dalfeydd yr heddlu;
- darparu cyngor ar arfer gorau i gynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn genedlaethol; a
- darparu hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a chymorth i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Gymdeithas yn http://icva.org.uk/

## Atodiad A

| Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa - Swydd Ddisgrifiad | |
|---|---|
| **Y meini prawf yn y swydd ddisgrifiad hwn fydd y sail a ddefnyddir i dynnu rhestr fer o ymgeiswyr addas i fod yn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Dyma'r gofynion angenrheidiol i sicrhau perfformiad effeithiol yn y rôl.** | |
| **Maen prawf** | **Cymhwysedd** |
| Prawf cymhwyso | • Rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn;<br>• Rhaid byw, gweithio neu astudio yn ardal Dyfed Powys;<br>• Rhaid bod yr unigolyn wedi byw yn y Deyrnas Unedig am o leiaf 3 blynedd cyn ymgeisio;<br>• Rhaid bod yn barod i fynychu cyfarfodydd Panel Ymwelwyr ddwywaith y flwyddyn;<br>• Rhaid bod yn barod i wneud ymweliadau rheolaidd â dalfeydd, yn unol â'r rota perthnasol;<br>• Rhaid bod yn barod i fynychu sesiynau hyfforddi blynyddol;<br>• Ni chaiff yr unigolyn fod yn aelod o heddlu neu o staff swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu, nag ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol mewn modd sy'n creu gwrthdaro buddiannau;<br>• Rhaid meddu ar ddealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a thegwch i bawb;<br>• Rhaid gallu cyfathrebu ag amrywiaeth o bobl, ar lafar ac mewn ysgrifen;<br>• Rhaid gallu gweithredu'n annibynnol ac yn ddiduedd;<br>• Rhaid gallu adrodd canfyddiadau mewn modd adeiladol;<br>• Rhaid gallu cadw cyfrinachedd;<br>• Rhaid bod yn fodlon cael gwiriad a darparu geirdaon. |
| Gweithio gyda phobl | • Rhaid dangos y gallu i weithio fel rhan o dîm;<br>• Rhaid meddu ar y gallu i sefydlu a chynnal perthynas weithio dda ag ystod eang o bobl. |
| Sgiliau cyfathrebu effeithiol | • Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac mewn ysgrifen;<br>• Rhaid dangos y gallu i reoli ymrwymiadau a gwneud cyfraniad dibynadwy i'r cynllun. |
| Cymhelliad | • Y gallu i ddangos brwdfrydedd am y rôl. |
| Parch at bobl | • Y gallu i drin pawb yn deg a chyda pharch, i werthfawrogi amrywiaeth ac i ymateb mewn modd sensitif i wahaniaethau;<br>• Dangos y gallu i fod yn agored i syniadau a dulliau gweithio newydd. |

## Atodiad B

| **Dyma grynodeb o hawliau carcharor dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Dyma'r wybodaeth a roddir i garcharorion mewn gorsaf heddlu. Mae manylion llawn ar gael yng Nghod Ymarfer C yr Heddlu.** |
|---|
| **1**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych yn dymuno cael cyfreithiwr i'ch helpu tra eich bod yn yr orsaf heddlu. Mae hyn am ddim. |
| **2**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych yn dymuno bod rhywun yn cael ei hysbysu am le'r ydych chi. Mae hyn am ddim. |
| **3**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych yn dymuno edrych ar eu rheolau - gelwir y rhain yn Godau Ymarfer. |
| **4**. Dywedwch wrth yr heddlu os oes angen cymorth meddygol arnoch chi. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi'n teimlo'n dost neu wedi cael eich anafu. Mae cymorth meddygol am ddim. |
| **5**. Os ydych chi'n cael eich cwestiynu am drosedd a amheuir, nid oes rhaid i chi ddweud dim. Fodd bynnag, gallaf fod yn niweidiol wrth eich amddiffyn eich hun os nad ydych yn sôn am rywbeth, wrth gael eich holi, yr ydych wedyn yn dibynnu arno mewn llys. Caiff popeth yr ydych chi'n ei ddweud ei ddefnyddio fel tystiolaeth. |
| **6**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych chi am y drosedd y maent yn amau eich bod wedi'i chyflawni a pham eich bod wedi'ch arestio ac yn cael eich cadw. |
| **7**. Rhaid i'r heddlu adael i chi neu'ch cyfreithiwr weld cofnodion a dogfennau am y rhesymau dros eich arestio a'ch cadw ac am eich cyfnod yn yr orsaf heddlu. |
| **8**. Os oes angen cyfieithydd, rhaid i'r heddlu gael un i chi. Hefyd, cewch gyfieithiadau o rai dogfennau. Mae hyn am ddim. |
| **9**. Dywedwch wrth yr heddlu os nad ydych chi'n Brydeiniwr ac yr ydych chi am gysylltu â'ch llysgenhadaeth neu gonswliaeth, neu os ydych chi'n dymuno iddynt gael eich hysbysu eich bod yn cael eich cadw. Mae hyn am ddim. |
| **10**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych chi am faint y cânt eich cadw. |
| **11**. Os cewch eich cyhuddo ac os bydd yr achos yn mynd o flaen llys, bydd gennych chi neu'ch cyfreithiwr hawl i weld tystiolaeth yr erlyniaeth cyn y gwrandawiad. |

## Atodiad C

| **Ystyriwch yr agweddau hyn am yr amgylchedd ffisegol yn y ddalfa. Gwiriwch:** |
|---|
| - bod y celloedd yn lân (y rhai gyda charcharorion a’r rhai gwag lle bo modd). |
| - bod y gegin a'r ardal paratoi bwyd yn lân ac yn drefnus. |
| - bod pob ardal arall o'r ddalfa’n lân ac yn drefnus. |
| - bod y gwres, golau ac awyru’n ddigonol. |
| - bod yr ystafell feddygol dan glo os nad oes gweithiwr iechyd proffesiynol yn bresennol. |
| - bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn rhwydd. |
| - bod stoc ddigonol o ddillad gwely, siwtiau gwrth-dorri a dillad sbâr. |
| - bod stoc ddigonol o fwyd. |
| - nad oes unrhyw berygl amlwg i iechyd a diogelwch yn y ddalfa. |
| - bod y seiniwr a’r systemau TCC yn weithredol. |
| - bod defnyddiau crefyddol ar gael yn rhwydd i garcharorion. |
| - nad oes unrhyw bwynt clymiad a allai beri risg i garcharorion. |

## Atodiad Ch

## Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

## Cod Ymddygiad

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn amlygu safonau a argymhellir ar gyfer pob aelod o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Mae'n ofyniad bob pob Ymwelydd yn datgan, wrth gael ei benodi, y caiff ei gyfarwyddo gan y Cod hwn.

Mae'r Cod yn nodi'r safon a ddisgwylir gan bob Ymwelydd ac yn sail i'w aelodaeth o'r Cynllun.

### 1. Camymddwyn

Yn achos camymddwyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystyried a yw'n briodol terfynu penodiad yr Ymwelydd dan sylw. Mae camymddwyn yn cynnwys pethau fel:

- Camddefnyddio cerdyn adnabod
- Derbyn euogfarn am drosedd
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Methu cydymffurfio â'r canllawiau ymweld

### 2. Safonau Gofynnol

Er mwyn i'r Cynllun fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod Ymwelwyr a staff yr heddlu'n datblygu perthnasoedd gweithio proffesiynol ar sail cyd-barch a chyd-ddealltwriaeth o'r gwahanol swyddogaethau. O ystyried hynny, mae'n bwysig nad yw Ymwelwyr yn creu anawsterau trwy:-

- Methu â deall blaenoriaethau'r heddlu
- Gwneud gormod o fan-feirniadaethau
- Defnyddio ymagwedd or-wrthwynebus
- Canolbwyntio ar ddod o hyd i ddiffygion neu geisio dal yr heddlu'n gwneud rhywbeth anghywir
- Ymwneud ag ymchwiliad neu gynghori'r carcharor ynghylch yr ymchwiliad
- Beirniadu gweithredoedd yr heddlu neu herio eu barn ym maes y tu hwnt i gylch gwaith Ymwelwyr
- Ymwneud â sefyllfa o wrthdaro rhyngbersonol gyda staff yr heddlu
- Dweud wrth yr heddlu beth ddylent ei wneud
- Gwneud addewid i garcharor ar ran yr heddlu

Rhaid gweld y materion hyn yng nghyd-destun yr angen i daro'r cydbwysedd cywir rhwng sefydlu trefniadau cyfathrebu effeithiol a datblygu perthynas sy'n rhy agos a chyffyrddus. Byddai hynny'n cyfaddawdu annibyniaeth yr Ymwelwyr o ran darparu sylwadau ac adroddiadau gwrthrychol a chadarnhaol.

Hefyd, disgwylir i bob Ymwelydd ymatal rhag defnyddio iaith gamwahaniaethol (er enghraifft iaith rywiaethol, hiliol neu homoffobig) a rhag dangos unrhyw fath o ymddygiad camwahaniaethol yn ei rôl fel Ymwelydd. Mae angen didueddrwydd wrth ymgymryd ag ymweld â charcharorion. Mae hynny, a'r angen i weithio

mewn modd cadarnhaol gydag Ymwelwyr eraill a staff, yn golygu nad yw agwedd ragfarnllyd neu gamwahaniaethol yn dderbyniol o fewn y cynllun.

## 3. Methu gwneud ymweliadau

Os bydd Ymwelydd yn methu gwneud ymweliad o fewn cyfnod o dri mis, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn ysgrifennu ato i holi a yw hyn yn gamgymeriad neu i geisio esboniad.

Os bydd Ymwelydd yn methu gwneud ymweliad o fewn cyfnod o chwe mis heb roi rheswm da i Swyddfa'r Comisiynydd, ystyrir terfynu ei benodiad.

## 4. Cwynion yn erbyn yr heddlu

Os bydd Ymwelydd yn cyflwyno cwyn yn erbyn yr heddlu, boed yn ei rôl fel Ymwelydd neu fel unigolyn preifat, rhaid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Wedyn, cyflwynir yr holl fanylion i Gadeirydd y Panel a fydd yn penderfynu, mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Comisiynydd, a ddylid gohirio neu gyfyngu ar ddyletswyddau'r Ymwelydd er mwyn cynnal didueddrwydd.

## 5. Perthynas weithio ag Ymwelwyr eraill

Yn ogystal â chynnal perthynas weithio proffesiynol gyda staff yr heddlu, rhaid i Ymwelwyr barchu eu Cyd-ymwelwyr yn yr un modd. Rhaid, felly, i’r holl Ymwelwyr:-

- Bod yn gefnogol a dangos cyd-barch at ei gilydd
- Gweithio fel tîm
- Chwarae rhan weithgar a chyfartal ym mhob ymweliad
- Osgoi dominyddu'r bartneriaeth yn ystod ymweliad

## 6. Torri'r Cod Ymddygiad

O gofio taw’r Cod Ymddygiad hwn yw’r safon a ddisgwylir gan bob Ymwelydd, ac yn sail i'w haelodaeth parhaus o'r Cynllun, caiff penodiad Ymwelydd sy’n torri'r Cod ei derfynu, ei ohirio, neu ei gyfyngu.

Yn achos cwyn neu honiad bod Ymwelydd wedi gweithredu’n groes i unrhyw ran o'r Cod Ymddygiad hwn, gweithredir fel a ganlyn:

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gofyn bod y gŵyn neu honiad yn cael ei gwneud mewn ysgrifen, os nad yw eisoes. Ni chymerir unrhyw gamau pellach heb fod y gŵyn neu honiad mewn ysgrifen.

Ar ôl derbyn y gŵyn neu honiad mewn ysgrifen, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn hysbysu’r Ymwelydd ei bod wedi’i derbyn ac am ei chynnwys.

Rhoddir cyfle i'r Ymwelydd ymateb i'r gŵyn neu honiad ar lafar neu mewn ysgrifen.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gwneud yr ymholiadau angenrheidiol i sylwedd y gŵyn neu honiad. Wrth wneud hynny, a chan ddibynnu ar natur y gŵyn, caiff Swyddfa'r Comisiynydd gysylltu ag un neu fwy o’r partïon canlynol:

- Yr Achwynydd
- Cyd-ymwelwyr
- Heddweision

- Unrhyw unigolyn arall a allai ddarparu gwybodaeth berthnasol

Ar ôl gwneud yr ymholiadau angenrheidiol, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn llunio adroddiad a gaiff ei ystyried gan Bennaeth Staff Swyddfa'r Comisiynydd a Chadeirydd y Panel perthnasol.

## 7. Datganiad

Yr wyf wedi darllen a deall cynnwys y Cod Ymddygiad hwn ac yn cytuno i gydymffurfio â'i gynnwys.

Enw (prif lythrennau): ....................................................

Llofnod: ....................................................

Dyddiad: ....................................................

## Atodiad D

**Polisi Dialedd**
**Ymweld â'r Ddalfa**

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn wirfoddolwyr sy'n gwneud ymweliadau dirybudd â charcharorion yn y ddalfa i sicrhau bod yr heddlu'n parchu eu hawliau a'u lles. Mae cyfrifoldeb ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i sicrhau bod carcharorion yn cael siarad ag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn agored a heb ofni dial gan yr heddlu yn rhan o'i gyfrifoldeb dan Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall. Mae hwn yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol a ddyluniwyd i gryfhau diogelu pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid.

### Y broses

1. Os bydd carcharor o'r farn ei fod wedi dioddef dial ar ôl siarad ag Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa, dylai godi'r mater trwy'r broses achwyn, a ddylai gael ei hysbysebu'n glir ym mhob dalfa ac ar wefannau perthnasol. https://www.dyfed-powys.police.uk/cy/cysylltwch-a-ni/cwynion-ac-apeliadau/

2. Os bydd carcharor yn tynnu sylw Ymwelydd at ddial, neu ei ofn o ddial, bydd yr Ymwelydd yn nodi hyn yn ei adroddiad i reolwr y cynllun yn Swyddfa'r Comisiynydd.

3. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cytuno i uwchgyfeirio cwynion sy'n cyfeirio at ddial sy'n codi o sgwrs gydag Ymwelydd i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys.

4. Lle cafwyd honiad o ddial bydd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys yn ymchwilio i'r mater o dan ei phroses trin cwynion.

5. Lle cafwyd honiad o ddial bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn hysbysu'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am y ffaith yn ogystal ag am ganlyniad unrhyw ymchwiliad.

6. Lle profwyd gwirionedd y fath honiad, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i ddelio â'r digwyddiad gyda Heddlu Dyfed-Powys a bod gweithdrefnau ar waith i atal unrhyw ddigwyddiad pellach.

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn neu bryder ynghylch y polisi dialedd, cysylltwch â chydlynydd y cynllun yn: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk